# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3490

# (302)

## Datganiad y Llywydd

Cyhoeddodd y Llywydd fod Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn unol â Rheol Sefydlog 26.75 wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 25 Tachwedd 2015.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.16

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu cyllid yn ôl o'r West London Vocational Training College yn sgil yr ymchwiliad parhaus i honiadau ehangach o dwyll? EAQ(4)0663(ESK)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.22

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Metro

Dechreuodd yr eitem am 14.35

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Polisi Caffael - Ysgogi Gwelliant ac Ymgysylltu â Busnesau

Dechreuodd yr eitem am 15.12

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2016 Ymlaen

Dechreuodd yr eitem am 15.47

## 6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, ar y rhaglen i ddileu TB

Dechreuodd yr eitem am 16.18

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Swyddfa Brisio sy'n deillio o'r Bil Menter

Dechreuodd yr eitem am 16.49

**NDM5892 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Menter, sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth am ardrethi annomestig gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Busnesau Bach sy'n deillio o'r Bil Menter

Dechreuodd yr eitem am 16.51

**NDM5891 Edwina Hart (Gŵyr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Menter sy'n ymwneud â'r

Comisiynydd Busnesau Bach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

Dechreuodd yr eitem am 16.53

**NDM5895 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015

Dechreuodd yr eitem am 16.57

**NDM5894 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.01

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015**